**Y Fonesig Rosemary Butler AC**
**Dame Rosemary Butler AM**

Llywydd
Presiding Officer

Christine Chapman AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

27 Chwefror 2015

Annwyl Christine

Yn ystod ei gyfarfod yr wythnos hon, trafododd y Pwyllgor Busnes bapur gan y Llywodraeth ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) mewn perthynas â Bil Troseddu Difrifol Llywodraeth y DU.

Mae'r Memorandwm yn ymwneud â gwelliannau i'r Bil yn ymdrin â cham-fanteisio'n rhywiol ar blant a dyletswydd ar bersonau sy'n gweithio mewn proffesiwn a reoleiddir i hysbysu'r heddlu o anffurfio organau rhywiol merched. Cytunodd y Rheolwyr Busnes mai i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y mae testun y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn fwyaf perthnasol.

Gan fod y Bil mewn cyfnod hwyr iawn o ran ei daith drwy'r Senedd ac oherwydd y cyfyngiadau amser, cytunodd y Pwyllgor Busnes i beidio â chyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol at bwyllgor i graffu arno a nododd y byddai'r Llywodraeth yn amserlennu'r Memorandwm ar gyfer dadl yn y Cyfarfod Llawn ar 3 Mawrth 2015. Fodd bynnag, gan fod testun y Memorandwm yn dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, rwy'n ysgrifennu i dynnu eich sylw at y Memorandwm, rhag ofn y dymuna'r Pwyllgor drafod y materion a gaiff eu cwmpasu gan y Memorandwm mewn unrhyw ffordd.

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i nodi penderfyniad y Pwyllgor Busnes.

Rosemary

**Rosemary Butler AC, Llywydd**
**Cadeirydd, Pwyllgor Busnes**

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1NA
Swyddfa.Breifat@cymru.gov.uk
www.cynulliadcymru.org
T +44 (0)29 2089 8230

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff CF99 1NA
Private.Office@wales.gov.uk
www.assemblywales.org
T +44 (0)29 2089 8230